COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 9 EBRILL 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

1: YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Kenneth Tams, Constance Atwill, David Ritchie, Nick Smith, Rhian Jones, Bob Barton a'r Clerc.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
Y Cyng. Rhian Jones – eitem 7 ar yr agenda.

3. TRAFODAETH GYDA NOELA JONES, PENNAETH TAI GRŴP CYNEFIN.
Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i Noela Jones, Pennaeth Tai Grŵp Cynefin, o ganlyniad i'r trafodaethau a gafwyd yn ystod cyfarfod diweddaraf y Cyngor ynglŷn â'r cais cynllunio posibl ar gyfer y tir rhwng y Rheithordy a Brakendene yn Llanbedr.
Trafodwyd y materion canlynol gan Ms Jones:-
A: Dangos y galw lleol.
B. Rôl yr Hwylusydd Tai Gwledig fyddai'n cynnal arolwg anghenion lleol.
C. Cytundeb Adran 106.
D. Rhestr aros tai cymdeithasol.
E. Cofrestr Tai Fforddiadwy.
F. Opsiynau perchnogaeth ar y cyd.
Diolchodd y Cadeirydd i Ms Jones am fynychu'r cyfarfod.

43. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 5 Mawrth 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Dosbarthodd y Cadeirydd gopïau o e-bost diweddar gan Pablo Iglesias, Penseiri, i'r Aelodau - sef drafft terfynol Cyn gwneud Cais ar gyfer y tir rhwng y Rheithordy a Brakendene yn Llanbedr. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau gysidro'r wybodaeth a roddwyd cyn trafod eu canfyddiadau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

6. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R SEDD WAG AR Y CYNGOR.
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y sedd wag ar y Cyngor.

7. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R GANOLFAN GYMUNEDOL.
Cyflwynodd y Cyng. Tim Baker ddiweddariad ynglŷn â'r Ganolfan Gymunedol fel a ganlyn:-
A: Mae prynu'r Griffin bellach wedi'i gwblhau.
B. Yn ddiweddar, cafwyd cymorth gan 120 o wirfoddolwyr i lanhau tu mewn i'r Griffin.
C. Trefnwyd prynhawn agored yn y Griffin ar gyfer 15 Ebrill 2018 rhwng 3.00 ac 8.00 o'r gloch.
D. Bydd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymunedol yn cyfarfod i drafod y Cyfansoddiad, Astudiaeth Ddichonoldeb a'r Cynllun Cyfrannu ar gyfer y Griffin.

8. DIWEDDARIAD Y SAFLE WE.
Argymhellodd y Cyng. Constance Atwill y dylai'r Cyngor gadw Brown Hen fel Gweinyddwr Gwefan y Cyngor. Bydd y Cyng. Atwill yn rhoi cymorth gyda gwybodaeth mewnbwn i'r Wefan.

9. CINIO DYDD GŴYL DEWI.
Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am y digwyddiad llwyddiannus yma. Darparwyd cinio i 50, a chafodd yr adloniant ei groesawu a'i fwynhau'n arw gan bawb. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu mewnbwn a'u cymorth i gynnal y digwyddiad, a gofynnodd i'r Clerc anfon llythyr diolch i Ysgol Gynradd Llanbedr am ddarparu'r adloniant.

10. YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU CYFUNOL LLANBEDR DYFFRYN CLWYD.

Yn dilyn ymddiswyddiad diweddar Mr Alex Bell a Major John Ingham fel Ymddiriedolwyr Elusennau Cyfunol Llanbedr Dyffryn Clwyd, etholwyd y Cynghorwyr Lyn Evans a Tim Baker gan yr Aelodau fel Ymddiriedolwyr yn eu lle.

11. CYLLID.

A. Cyfrifon banc:-
1. Cyfrif Cyfredol Nat West £3,856.38.
2. Cyfrif Cadw Nat West £9,328.18.
B. Derbynneb – Cyfraniad Cinio Dydd Gŵyl Dewi 50 @ £2.00 = £100.00.
C. Talu biliau:-
1. Ann Jones – 50 Cinio Dydd Gŵyl Dewi @ £12.00 = £600.00.
2. Cadwyn Clwyd – Cyfraniad cyllid cyfatebol ar Brosiect Datblygu Pwyllgor Rheoli Cymunedol Tafarn y Griffin - £1,515.00.
3. Mrs Brenda E. Jones – cyfieithu cofnodion mis Mawrth - £40.00.
4. Plunkett Foundation – Aelodaeth 'Pub in the Hub' - £75.00.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais 16/2018/0027 – Cynlluniau diwygiedig ar gyfer codi 1 annedd (manylion diwygiedig i gynllun cyfeirnod 16/294/96 a dderbyniwyd/gymeradwywyd yn flaenorol) yn Tŷ Capel (Capel Llwynedd gynt), Llanbedr Dyffryn Clwyd. Fel canlyniad i wybodaeth a roddwyd gan y Cyng. Bob Barton, mae'r pryderon canlynol wedi'u trosglwyddo i Gyngor Sir Ddinbych yn dangos diffyg cefnogaeth i'r cais.
1. Maint.
2. Bioamrywiaeth.
3. Mynediad.
4. Dŵr ffo arwyneb.
B. Cais 16/2018/0241 – Codi estyniadau ac addasu'r annedd yn Wernog, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.
C. Cais 16/2018/0249 – Cadw'r llinell LV uwchben bresennol yn Llwyn Dedwydd, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.

13. GOHEBIAETH.

A. Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r Cais am Ollyngiad Treth i Gyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd ar gyfer y Ganolfan Gymunedol dros y cyfnod cychwynnol o chwe mis.
B. Mae'r Cyng. Bob Barton wedi cwblhau ffurflen gais y Faner Werdd ar gyfer Gardd Gymunedol Maes Derwen.

14. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A. Cyflwynodd y Cyng. Lyn Evans ddiweddariad i'r Aelodau ynglŷn â materion cŵn ar Foel Famau dros benwythnos y Pasg.
B. Mae Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams eisoes wedi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion Band Eang lleol i'r Aelodau.

15. MATER BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Rhoddwyd caniatâd gan yr Aelodau i'r Cyng. Kenneth Tams brynu defnyddiau ar gyfer Gardd Gymunedol Maes Derwen.

16. CYFARFOD NESAF O'R CYNGOR – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Dydd Iau 3 Mai 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.